

Yr arddangosfa

Yn yr arddangosfa hon cewch gipolwg unigryw ar darddiad rhai o greadigaethau mwyaf eiconig a phoblogaidd Blake, yn amrywio o'i ddarluniau yn y *Twits*, *Danny Pencampwr y Byd* a *Matilda* yn llyfrau Roald Dahl i'w lyfrau ei hun, *The Story of the Dancing Frog a Clown*, a *The Boy in The Dress* gan David Walliams yn ogystal â darluniau ar gyfer llyfrau gan Russell Hoban a Michael Rosen.

Mae'r adnodd dysgu hwn wedi'i gynllunio i gefnogi athrawon ac addysgwyr. Mae'n cynnwys cymorth wrth gynllunio ymweliad, crwydro o amgylch yr arddangosfa ac awgrymiadau am bethau i'w gwneud yn ôl yn yr ystafell ddosbarth. Fe'i anelir yn bennaf at ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2, ond gellir ei addasu'n hawdd ar gyfer myfyrwyr hŷn neu iau.

Trafodwch

- Beth mae darlunydd yn ei wneud? Defnyddiwch rai o'ch hoff lyfrau lluniau neu gomics fel enghreifftiau, meddyliwch sut mae'r lluniau'n cyfoethogi'r stori.
- Beth yw eich hoff lyfrau wedi'u darlunio/comics, beth ydych chi'n ei hoffi amdanyn nhw?
- A oes pethau yn y lluniau nad ydyn nhw'n cael eu cyfleu gan y geiriau yn y llyfr?

Ymchwiliwch i rai o lyfrau Quentin Blake

Yn y rhan fwyaf o ddarluniau Blake mewn llyfrau plant, mae'n amlwg pa gymeriadau y gallwch chi gydymdeimlo â nhw neu beidio cydymdeimlo – 'arwyr' a dihirod'. Plant yn aml yw'r arwyr a'r arwresau ac oedolion yw'r dihirod. Mae Blake yn defnyddio mynegiant wyneb, osgo, nodweddion a gweithredoedd i'w gwneud yn glir ar ochr pw ydyn ni. Efallai taw dyma'r rheswm pam mae ei waith mor boblogaidd ac yn rhoi mwynhad i ddarllenwyr o bob oed.



Yn yr arddangosfa

Yn yr arddangosfa fe welwch ddarluniau o'r llyfrau canlynol. Bydd copïau o'r llyfrau ar gael i ddarllen a bwrdd darlunio lle y gallwch greu eich darluniau eich hun a'u dangos yn yr oriel.

1) Y Twits - Roald Dahl (1980)

Dewisodd Blake gynnwys hon, sy'n un o storïau mwyaf poblogaidd Dahl, a Danny Pencampwr y Byd fel storïau gwrthgyferbyniol gyda briffiau darlunio tra gwahanol. Y Twits yw'r bobl fwyaf erchyll dan haul ac mae Blake portreadu eu natur gas yn fanwl iawn, yn ogystal ag awyrgylch annymunol a llwm eu cartref. Un o agweddau pwysicaf y stori yw cosb haeddiannol y Twits, a dangosir hyn yma hefyd. Gan fenthycu o'r traddodiad straeon tylwyth teg sy'n portreadu gwyrachod fel creaduriaid hyll, mae Blake wedi dod â chreaduriaid Dahl yn fyw mewn ffordd ogoneddus o grotésg y mae plant wrth eu bodd yn eu casáu.

Pwyntiau trafod:

- Sut mae Blake wedi gwneud yn glir bod y cymeriadau hyn yn ffaidd ac yn erchyll?
- Sut mae Blake wedi dangos taw cartref y Twits yw'r tŷ lleiaf croesawgar dan haul?
- Beth fydddech chi'n ei ychwanegu at farf Mr Twit i'w wneud yn fwy ffaidd fyth?
- Pa fath o farciau mae Blake yn eu gwneud gyda'r inc, a pha effaith y mae'r rhain yn ei chael ar y darluniau?

Yn y dosbarth

- Gofynnwch i'r plant ysgrifennu disgrifiad ar gyfer cymeriad erchyll. Yna gofynnwch iddyn nhw gyfnewid eu disgrifiadau a darlunio'r cymeriad eu ffrind. Ydy'r darlun yn debyg i'r hyn oedd y person ysgrifennodd y disgrifiad yn ei ddychmygu?
- Mae gardd y Twits yn hyll ac yn tyfu'n wyllt. Defnyddiwch y ddelwedd fel sbardun i astudio mannau gwyrdd ger yr ysgol. Cofnodwch y planhigion sy'n tyfu, siarad am yr hyn sydd ei angen ar blanhigion i dyfu. Gofynnwch i'r disgyblion ddylunio gardd newydd ar gyfer Y Twits.
- Mae adar yn chwarae rhan bwysig iawn yn stori'r Twits. Defnyddiwch lyfrau neu'r rhyngwrdd i ymchwilio i adar sydd i'w gweld ger yr ysgol neu yn yr gardd.



Darlun © Quentin Blake

2) Danny Pencampwr y Byd, Roald Dahl (1994)

Un o lyfrau plant mwyaf poblogaidd Roald Dahl yw Danny Pencampwr y Byd – stori'r berthynas gynnes rhwng tad a mab, cefn gwlad, a'r frwydr rhwng tiffeddianwyr a phobl sy'n byw ar y tir. Mae portread Blake o gefn gwlad a chymeriadau Danny a'i dad yn fwy tynner a chynnil na rhai o'i bortreadau eraill, sy'n gweddu i'r stori. Yn debyg i lawer o greadigaethau Dahl a Blake, mae yna gymeriadau y gallwch chi gydymdeimlo â nhw neu beidio cydymdeimlo, wedi'u darlunio gydag afiaith gan Blake.



Darlun © Quentin Blake

Pwyntiau trafod:

- Mae Danny a'i dad yn crwydro'r goedwig yn ystod y dydd a'r nos. Sut mae Blake yn darlunio'r goedwig yn dibynnu ar yr adeg o'r dydd?
- Sut ydych chi'n teimlo wrth edrych ar luniau o anturiaethau Danny a'i dad yn ystod y nos?
- Sut mae Blake wedi portreadu'r athro sy'n digio gyda Danny?

Yn y dosbarth

- Yn y llyfr, mae tad Danny yn meddwl am driciau i geisio dal ffesantod. Defnyddiwch hyn fel ysbrydoliaeth i roi her ddyfeisio i'r dosbarth.
- Ymchwiliwch i'r bywyd gwyllt sydd i'w weld mewn coetir lleol. Pa blanhigion ac anifeiliaid y gallech ddod o hyd iddyn nhw? Mae'r arddangosfa coetir derw yn yr amgueddfa yn fan cychwyn da.

3) Clown - Quentin Blake (1988)

Wedi ei ysgrifennu a'i ddarlunio gan Quentin Blake, stori yw hon am degan sy'n dod yn fyw ar ôl cael ei daflu ymaith sawl gwaith. Nid oes geiriau yn y llyfr hwn, felly mae'r stori gyfan yn cael ei hadrodd drwy ddarluniau. Mae Clown yn cael ei gam-drin gan ei berchenogion gwreiddiol, ac yn darganfod bywyd drwy bartneriaeth gyda'r bobl iawn.



Darlun © Quentin Blake

Pwyntiau trafod:

- Sut ydyn ni'n gwybod bod y fenyw a'r dyn sy'n cael gwared ar Clown i ddechrau yn bobl "ddrwg"?
- Sut ydyn ni'n gwybod bod y plentyn a'r babi sy'n helpu Clown gyda'i anturiaethau yn "dda"?
- Edrychwch ar y gwahaniaeth rhwng y brasluniau a'r darluniau gorffenedig. Pam mae'n bwysig i artist wneud drafft bras yn gyntaf?

Yn y dosbarth

- Heriwch eich disgyblion i greu stori gan ddefnyddio lluniau yn unig.
- Mae'r clown yn cael ei gam-drin, felly i gyferbynnu canolbwytivwch ar bethau sy'n golygu llawer i blant. Gwnewch arddangosfa o 'drysorau' y plant.
- Defnyddiwch y stori i sôn am wastraff ac ailgylchu.

4) Matilda - Roald Dahl (1988)

Mae Matilda'n athrylith ond mae ei rhieni a'i Phrifathrawes yn ymddwyn yn ofnadwy tuag ati. Un diwrnod mae'n darganfod bod ganddi bŵer arbennig iawn ac yn penderfynu ei ddefnyddio i dalu'r pwyth yn ôl. Unwaith eto, mae darluniau Blake yn cyfleu pwy sy'n dda a phwy sy'n ddrwg, o'r Matilda dawel a charedig, sy'n aml â'i phen mewn llyfr, i Miss Trunchbull y brifathrawes fygythiol sy'n unben ar yr ysgol.

Pwyntiau Trafod

- Mae Miss Trunchbull yn arswydus a brawychus. Sut mae Blake wedi dangos hyn yn ei ddarluniau?
- Sut mae Matilda yn cymharu â'r oedolion yn y lluniau?
- Mae Matilda yn ferch fach anghyffredin iawn, sut mae Quentin Blake yn dangos hyn?
- Pa argraff ydych chi'n ei gael o rieni Matilda wrth edrych ar luniau Blake ohonyn nhw?
- Edrychwch ar y lluniau o Miss Trunchbull yn gafael yn Amanda Thripp gerfydd ei phlethi a'i chwyrlio. Sut mae Blake yn dangos symudiad yn ei luniau? Allwch chi feddwl am unrhyw ffyrdd eraill o ddarlunio rhywbeth sy'n symud?



Darlun © Quentin Blake

Yn y dosbarth

- Mae Matilda wrth ei bodd yn darllen llyfrau. Ysgrifennwch adolygiad o'ch hoff lyfr a dyluniwch boster llawn lluniau i ddweud wrth bobl i ddarllen y llyfr.
- Mae Matilda'n ymweld â'r llyfrgell yn rheolaidd i ganfod llyfrau newydd i'w darllen. Ewch i lyfrgell yr ysgol neu'r llyfrgell leol i weld pa wasanaethau maen nhw'n eu cynnig. Gallai disgyblion wneud poster i hysbysebu'r llyfrgell.
- Mae Matilda yn darllen 'The Secret Garden', 'Great Expectations' a llawer o lyfrau enwog eraill. Gosodwch her wedi'i hysbrydoli gan Matilda i'ch myfyrwyr.
- Gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu cymeriad sy'n athro/athrawes garedig (fel Miss Honey) ac athro/athrawes gas (fel Miss Trunchbull).

5) The Boy in the Dress - David Walliams (2008)

Stori am fachgen sydd ddim yn dod ymlaen â'i dad a'i frawd, ac sy'n gwirioni ar bêl-droed a ffasiwn. Mae ei ffrind Lisa yn ei gyflwyno i ddillad merched ac mae'n darganfod sut brofiad yw bod yn ferch. Llenwodd Blake dudalennau cyntaf ac olaf y llyfr gyda darluniau o grwpiau o blant yn yr ysgol. Mae hyn yn rhoi cefndir i ddigwyddiadau'r stori: merched a bechgyn yn ymddwyn yn union fel plant yn yr ysgol.



Darlun © Quentin Blake

Pwyntiau trafod

- Sut mae Blake wedi cyfleu bywyd ysgol yn y darluniau?
- Ydy'r lluniau'n debyg i'ch ysgol a'ch ffrindiau chi?
- Sut fydddech chi'n dangos cyfeillgarwch, drygioni, sgwrs a holl agweddau cymdeithasol bywyd ysgol mewn ychydig ddarluniau?

Yn y dosbarth

- Mae Lisa, ffrind y bachgen, yn mwynhau dylunio ffrogiau. Gofynnwch i'ch myfyrwyr ddylunio gwisgoedd ar gyfer gwahanol bobl.
- Mae Lisa yn cadw ei darluniau mewn llyfr lloffion. Crëwch eich llyfr braslunio eich hun.
- Defnyddiwch bennau ffabrig i ddylunio crys T plaen.
- Mae'r llyfr yn trafod materion emosiynol yn ymwneud â hunaniaeth felly byddai'n adnodd da i gyflwyno'r themâu hyn.

6) The Story of the Dancing Frog - Quentin Blake (1998)

Wedi'i hysgrifennu a'i darlunio gan Blake, stori-o-fewn-stori yw hon, gyda mam yn dweud wrth ei merch am y broga sy'n dawnsio. Mae'r fam a'r ferch wedi'u darlunio mewn golchiad sepi, ond mae'r stori ei hun mewn lliw. Mae'r bwrdd stori wedi'i fraslunio yn dangos i ni sut aeth Blake ati i drefnu'r naratif a'r darluniau.

Pwyntiau trafod

- Broga bach, sy'n aml yn ymddangos yn eithaf bach ar y dudalen, yw'r prif gymeriad. Sut mae Blake yn dangos i ni taw dyma arwr y stori?
- Roedd geiriau i'r stori yn wreiddiol, ond penderfynodd Blake ddefnyddio lluniau yn unig. Sut fyddai geiriau wedi newid y stori?

Yn y dosbarth

- Mae Blake yn defnyddio'r broga i esbonio'r gwahaniaeth rhwng darlun a llun realistig. Defnyddiwyd y ddelwedd o'r arddangosfa (gweler isod) fel man cychwyn. Beth yw'r gwahaniaethau rhwng y delweddau? Defnyddiwyd ffotograffau o anifeiliaid go iawn (ffotograffau o'r anifeiliaid yn yr amgueddfa efallai) a herio eich myfyrwyr i'w darlunio yn wyddonol cywir i ddechrau, ac yna fel cymeriadau.
- Defnyddiwyd fwrdd stori Blake i gyflwyno'r cysyniad o gynllunio stori. Rhwng gynig ar wneud un yn y dosbarth.
- Gofynnwyd i'r plant ddewis sbardun stori allan o het. Enwau anifeiliaid mewn un het, ac yn y llall, adferfau hwyliog sy'n gyfarwydd i'r plant. Heriwyd y plant i ysgrifennu stori gan ddefnyddio'r sbardun fel teitl (e.e. Y Gath Hapus, Y Falwoden Farus)



Darlun © Quentin Blake

7) How Tom Beat Captain Najork and His Hired Sportsman - Russell Hoban (2006)

Mae'r llyfr hwn yn sôn am arwr o'r enw Tom a'i fodryb feirniadol sy'n ei anfon at Gapten Najork, dyn sy'n gwneud iddo chwarae pob math o gemau heriol y mae wedi'u dyfeisio. Gan ei fod yn arwr, mae Tom yn ennill bob tro. Roedd yn rhaid i Blake ddyfeisio'r gemau ei hun er mwyn eu darlunio, a fe hefyd ddyfeisiodd y cwch pedlo a ysbrydolodd stori Hoban.

Pwyntiau trafod

- Sut y gallwn ni ddweud bod Modryb Fidget Wonkham-Strong yn feirniadol o'i nai?
- Mae dau o'r darluniau mawr yn dangos gemau yr oedd yn rhaid i Blake eu dychmygu. Yw'r gemau'n edrych yn hwyl? Pa fath o gemau ydych chi'n eu mwynhau, ydyn nhw'n debyg i'r gemau yn y stori?
- Cymharwch frasluniau Blake a'r darnau gorffenedig. Pam ydych chi'n meddwl ei bod yn bwysig i artist gynllunio'r hyn mae'n mynd i'w ddarlunio?
- Edrychwch ar y cerdyn post a ysbrydolodd Russell Hoban i ysgrifennu'r stori. Pa stori fydddech chi'n ei dyfeisio i fynd gyda'r hen ffotograff hwn?

Yn y dosbarth

- Gall y llyfr fod yn sbardun i drafodaeth am ymddygiad a'r hyn sy'n deg – ydy hi'n deg bod modryb Tom yn ei gosbi fel yna?
- Mae'r gemau yn y llyfr yn hollol wahanol i'r gemau ni heddiw. Defnyddiwch y syniad hwn i ymchwilio i gemau a theganau o wahanol gyfnodau mewn hanes.



Darlun © Quentin Blake

8) Candide - Voltaire (2011 - nofel wreiddiol cyhoeddwyd ym 1759)

Wedi'i ddisgrifio gan Blake fel math o lyfr-plant anwaraidd ar gyfer oedolion, mae'r darluniau ar gyfer y nofel hanesyddol hon yn caniatáu i Blake drafod rhai themâu difrifol i oedolion. Mae hon yn nofel goeglyd sy'n barodi o straeon rhamant ac antur cyfoes, a chafodd y llyfr ei wahardd yn fuan ar ôl ei gyhoeddi oherwydd bod ei gynnwys yn gableddus.

Pwyntiau trafod

- Cymharwch triniaeth Blake o'r stori hon a'i lyfrau i blant?
- Cymharwch y cymeriadau a'r lleoliadau addfwyn gyda'r rhai garw. Sut mae Blake yn dangos y gwahaniaeth rhwng y ddau i ni?



Darlun © Quentin Blake

Yn y dosbarth


- Mae'n anarferol i lyfrau ar gyfer oedolion gynnwys darluniau, trafodwch pam?
- Defnyddiwch drafodaeth am y gwahaniaeth rhwng llyfrau plant a llyfrau oedolion fel cyflwyniad i ysgrifennu ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd.
- Cyflwynwch y disgyblion i awduron enwog ar gyfer darllenwyr hŷn. Darllenwch ddyfyniad o lyfr a herio'r disgyblion i greu darlun a allai gyd-fynd â'r stori. Mae darnau sy'n disgrifio cymeriadau neu lleoliadau yn gweithio'n arbennig o dda.

9) Sad Book - Michael Rosen (2004)

Rhoddwyd lle ei hun yn yr arddangosfa i'r llyfr hwn oherwydd ei destun: galar. Mae braslun y stori o e-bost Rosen at y cyhoeddwr yn dangos sut aeth Blake ati i wneud nodiadau dros syniadau gwreiddiol yr awdur. Mae'r llyfr yn ymdrin ag ymateb Rosen i farwolaeth ei fab deunaw oed, a thrwy ei eiriau ei hun a darluniau Blake mae'n trafod anferthedd a chymhlethdod colled o'r fath.

Pwyntiau trafod

- Ar ddechrau'r llyfr ceir delwedd o Rosen yn gwenu. Sut mae Blake yn dangos mai gwên ffug yw hon a ddefnyddir gan yr awdur pan fydd yn esgus peidio â bod yn drist?
- Sut mae dinasluniau Llundain yn helpu i gynrychioli teimladau'r awdur?
- Sut mae lluniau o atgofion hapus yn wahanol i'r rhai o alar a cholled?
- Bwriad Blake oedd bod diwedd y llyfr yn dangos gobaith. Sut mae wedi mynd ati i ddangos hyn?



Darlun © Quentin Blake

Yn y dosbarth

- Gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu 'Llyfr Trist' eu hunain sy'n rhannu'r pethau sy'n eu gwneud yn drist a sut maen nhw'n delio â hyn. Gallen nhw hefyd greu 'Llyfr Hapus'.
- Heriwch y disgyblion i feddwl am wahanol eiriau/ymadroddion sy'n disgrifio emosiynau? Yn y llyfr, mae'r awdur yn disgrifio 'trist' fel rhywbeth mawr, ym mhob man, a drosto i gyd ('big, everhywhere, all over me'). Mae hefyd yn dweud bod teimlo'n drist yn debyg i gwmwl sy'n dod heibio i'w orchuddio ('just a cloud that comes along and covers me up').
- Ysgrifennwch stori gyda diwedd glo trist. Allech chi ysgrifennu diwedd glo trist arall i stori sydd fel arfer â diwedd glo hapus? Pa un sydd orau gennych?
- Tynnwch lun i ddangos sut beth yw 'trist'. Darluniwch emosiynau eraill.